

To gwyrdd

To gwyrdd yw to neu ddec lle mae llystyfiant yn cael ei dyfu yn fwrriadol neu lle mae cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt yn cael eu meithrin.

Mae dau prif fath o do gwyrdd:

• Dwys

Mae'r toeon hyn â swbstrad dyfnach (>200 mm) all gynnal llwyni a choed, ac maent yn ymddangos mwy fel gerddi to. Mae angen gwaith rheoli a chynnal sylweddol arnynt o ran dyrhau.

• Llai dwys

Mae'r toeon hyn â haen swbstrad llai dwfn (<150 mm), sy'n cynnal planhigion isel eu tyfiant sy'n gallu goddef sychder ac sydd angen ychydig iawn o waith cynnal. Toeon ar raddfa fawr yw'r math mwyaf cyffredin o do gwyrdd.

Manteision go gwyrdd

Mae nifer o fanteision i do gwyrdd megis:

- Cerrig camu gwyrdd ar gyfer bywyd gwyllt
- Storio dŵr – (SDCau/SuDs*)
- Gwanychu sŵn
- Cynhyrchu ocsigen
- Amsugno llygryddion aer, llwch a CO₂
- Estheteg weledol i safleoedd
- Inswleiddio (màs thermol uwch)

*Systemau Draenio Cynaliadwy



Toeon sedwm yn y Parc Cenedlaethol

Dylid osgoi toeau sedwm-yn-unig yn y Parc Cenedlaethol, oherwydd y nifer cyfyngedig o rywogaethau sedwm brodorol.

Dim ond dwy rywogaeth o sedwm sy'n frodorol i Sir Benfro sy'n addas i'w cynnwys mewn to gwyrdd:

- *Sedum acre* - Goldmoss stonecrop – Briweg boeth
- *Sedum anglicum* - English stonecrop – Briweg y cerrig

Byddai creu to sedwm gydag ond dwy rywogaeth yn golygu to sy'n gyfyngedig ei werth yn ecolegol ac yn esthetig.

Ni fyddai defnyddio mathau eraill o sedwm (gan gynnwys mathau gardd) ar gyfer to gwyrdd yn Sir Benfro yn dderbyniol gan eu bod yn blanhigion ymledol, ac yn rhoi rhywogaethau brodorol mewn perygl.

Cynefinoedd gwarchodedig

Mae cymunedau o blanhigion ar lan y môr, ar glogwyni ac mewn agenni i'w gweld dros y lle ar hyd ein harfordir, a restrir yn aml fel nodweddion safleoedd dynodedig megis:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Unwaith y bydd planhigyn wedi 'dianc' i'r gwyllt gall fod yn anodd ac yn gostus i'w waredu.

Mewn llawer o achosion, mae gwaredu yn amhosibl a gall gael effaith hirdymor ar ecoleg cynefinoedd gwarchodedig ac arbennig.

Rhywogaethau sy'n addas ar gyfer to gwyrdd arfordirol

Enw gwyddonol

Achillea millefolium
Aira caryophylla
Aira praecox
Anthyllis vulneraria
Arenaria serpyllifolia
Armeria maritima
Bromus hordeaceus
Centaureum erythraea
Cerastium diffusum
Cochlearia danica
Cochlearia officinalis
Erodium cicutarium
Euphorbia portlandica
Festuca ovina
Festuca rubra agg
Galium verum
Hieracium pilosella
Jasione montana
Koeleria macrantha
Leontodon taraxacoides
Lotus corniculatus
Matricaria maritima
Myosotis ramosissima
Plantago coronopus
Ornithopus perpusillus
Plantago lanceolata
Plantago maritima
Sagina apetala
Sagina maritima
Sanguisorba minor
Scilla verna
Sedum acre
Sedum anglicum
Silene maritima
Spergularia rupicola
Thymus praecox
Trifolium arvense
Veronica arvensis

Enw Saesneg cyffredin

Common yarrow
Mouse grass
Early hair grass...
Kidney vetch
Thyme-leaved sandwort
Thrift
Soft brome
Common centaury
Sea mouse ear
Danish scurvygrass
Common scurvygrass
Common stork's bill...
Portland spurge
Sheep's fescue...
Red fescue...
Lady's bedstraw...
Mouse-ear hawkweed
Sheep's bit scabious
Crested hair grass
Lesser hawkbit
Bird's-foot trefoil
Sea mayweed
Early forget-me-not
Buck's horn plantain
Bird's-foot
Ribwort plantain..
Sea plantain
Annual pearlwort...
Sea pearlwort
Salad burnet...
Spring quill
Biting stonecrop
English stonecrop
Sea campion
Rock sea spurrey
Wild thyme...
Hare's-foot clover
Wall speedwell...

Enw Cymraeg

Llysiau'r gwaedlyn
Brigwellt arian
Brigwellt y gwanwyn
Meillionen felen
Teimddail
Clustog fair
Pawrwellt y weirglodd
Y ganrhi goch
Môr-lygodyn
Morlwyau danaidd
Morlwyau cyffredin
Pig y creïr
Llaethlys Portland
Peiswellt y defaid
Peiswellt coch
Llysiau'r cywair
Heboglys torlwyd
Clafrllys y mynydd
Brigwellt cribog
Peradyl blewog
Pys ceirw
Amranwen y môr
Ysgorpionllys gwrychog
Llyriad corn y carw
Troed aderyn
Dail llwynhidydd
Llyriad arfor
Corwlyddyn unflwydd
Corwlyddyn arfor
Gwyddlwyn cyffredin
Cwils y gwanwyn
Briweg boeth
Briweg y cerrig
Gludlys arfor
Troellig y clogwyn
Teim gwyllt
Meillion cedenog
Rhwyddlwyn y mur

- '...' Mae'r rhywogaethau hyn ag enwau cyffredin eraill yn ogystal
- Mae'r rhywogaethau a restrir yn rhan o gymuned Theroffyt Morol y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol MC5
- *Theroffyt yw unrhyw blanhigyn sy'n goroesi amodau anffafriol ar ffurf hadau yn unig



Toeon gwyrdd a ffefrir gan y Parc Cenedlaethol

Mae defnyddio rhywogaethau brodorol ac efelychu cynefinoedd naturiol yn gymorth i gael y manteision mwyaf ar gyfer bywyd gwylt a thirwedd y Parc Cenedlaethol.

Y dewisiadau fyddai'n rhoi'r budd mwyaf o gael to gwyrdd fyddai:

To arfordirol Sir Benfro

Bydd y math hwn o do yn cynnwys planhigion sydd wedi addasu'n arbennig i amodau'r arfordir ac o ganlyniad byddant yn goddef sychder a bod yn agored i'r elfennau a gwynt llawn halen, gan eu gwneud yn ddelfrydol ar gyfer amgylchedd yr arfordir.

Mae rhai o'r planhigion hyn hefyd yn newid eu lliw yn ystod cyfnodau o sychder, sy'n ddiddorol i'w weld.

Mae rhestr o rywogaethau o blanhigion addas wedi'i chynnwys yn y daflen.

To blodau gwylt brodorol y DU

Fel rheol, mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o flodau a glaswellt sy'n frodorol i'r DU ac maent ar gael yn aml gan brif gyflenwyr fel plygiau, hadau neu fel dewis 'parod i'w rollo'.

Gall opsiynau parod i'w rollo weithiau gynnwys rhywogaethau anffordorol all fod yn anaddas.

Dim ond mewn mannau mewndirol y byddai'r mathau hyn o gynnyrch yn cael eu hystyried ar ôl cymeradwyo'r rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys.

- *'Parod i'w rollo' - Mae hwn yn gynnwys stoc gyflawn o hadau a haen o swbstrad a werthir ar ffurf mat / blanced / carped



Gwybodaeth bellach

Dogfennau cyfarwyddyd allanol:

- 'The Green Roof Code' (GRO)
- 'Guide to DIY Green Roofs' (GRO)
- 'Creating Green Roofs for Invertebrates' (Buglife)
- www.arfordirpenfro.cymru

Noder os gwelwch yn dda:

Bwriedir i'r daflen hon fod yn ganllaw defnyddiol a syml ac ni ddylid ei hystyried yn esboniad llawn o'r modd i greu to gwyrdd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r adran:

Rheoli Datblygu

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Ffôn: 01646 624800

E-bost: dc@pembrokeshirecoast.org.uk

TAFLN TIRWEDD 1

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2019



Canllawiau Toeon Gwyrdd

ym
Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park